# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Chwefror

2022

Amser: 09.02 - 09.55

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

### Dydd Mawrth

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd y Llywydd yn arwain teyrngedau i Aled Roberts ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth gyda'r Prif Weinidog a chynrychiolwyr y pleidiau yn cael eu galw i wneud cyfraniadau.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.25pm.

### Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.50pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newidiadau a ganlyn:

### Dydd Mercher 1 Mawrth 2022 -

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022 (20 munud)

**Dydd Mawrth 8 Mawrth 2022 -**

- Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022 (15 munud)

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 2 Mawrth 2022 -**

- ~~Dadl Fer - Rhys ab Owen (Canol De Cymru) (30 munud)~~ Symudwyd i 9 Mawrth
- Dadl Fer – John Griffiths (Dwyrain Casnewydd) (30 munud)

**Dydd Mercher 9 Mawrth 2022 -**

- ~~Dadl Fer - John Griffiths (Dwyrain Casnewydd) (30 munud~~) Symudwyd i 2 Mawrth
- Dadl Fer – Rhys ab Owen (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 16 Mawrth 2022 -**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod: Janet Finch-Saunders (Aberconwy) - Cynllunio morol yng Nghymru (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer – Gareth Davies (Dyffryn Clwyd) (30 munud)

### Fformat y Cyfarfod Llawn

Trafododd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar ôl toriad hanner tymor mis Chwefror ac ystyriodd Asesiad Risg wedi'i ddiweddaru. Ar ôl ystyried barn grwpiau pleidiau a mesurau i liniaru risgiau, penderfynodd y Llywydd y gallai pob un o'r 60 Aelod fod yn y Siambr yn bersonol ar unrhyw adeg o 1 Mawrth ymlaen. Roedd hyn yn unol ag arwydd gan y Prif Weinidog o lacio nifer o gyfyngiadau eraill ddiwedd mis Chwefror. Byddai cyfranogiad rhithwir a phleidleisio electronig yn parhau fel y gallai Aelodau barhau i gymryd rhan o bell.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Aelodau'n cael eu cynghori'n gryf i wisgo masgiau wyneb yn y Siambr ac eithrio wrth wneud cyfraniad. Gofynnodd y Llywydd i'r Aelodau gael gwybod mai dyna oedd ei disgwyliad hi. Dylai pob Aelod hefyd gymryd prawf llif unffordd cyn bod yn bresennol yn bersonol.

## 4 Amserlen y Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais am slot cyfarfod ychwanegol.

### 4.2 Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes ganlyniad ei ymgynghoriad â phwyllgorau ac aelodau'r pwyllgorau ynghylch amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau, a diwygiadau arfaethedig i amserlen y pwyllgorau.

Cytunwyd y dylid ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion ynghylch yr amserlen arfaethedig a'r amserlen ar gyfer gweithredu yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror. Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd i ymgynghori â'u grwpiau ac i ystyried cynnig terfynol ar ôl y toriad hanner tymor.

# 5 Unrhyw faterion eraill

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Ar gynnig y Trefnydd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm Atodol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) o 3 Mawrth i 17 Mawrth.